OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 348 (Cy. 86)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Mawrth 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *22 Mawrth 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Mawrth 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 90(2) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Mawrth 2022.

### Newid dyddiad dod i ben

**2.**—(1) O ran y darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 a bennir ym mharagraff (2)—

(a) nid ydynt yn dod i ben ar yr adeg y byddent yn dod i ben fel arall yn rhinwedd adran 89 o'r Ddeddf, a

(b) maent yn dod i ben yn lle hynny ar ddiwedd y diwrnod ar 24 Medi 2022.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 38(1), i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;

(b) adran 82, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;

(c) yn Rhan 1 o Atodlen 17—

(i) paragraff 2;

(**1**) 2020 p. 7. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 90(2) o'r Ddeddf wedi ei roi i "a relevant national authority" ("corff cenedlaethol perthnasol"). O dan adran 90(7) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â'r pŵer i estyn dyddiad dod i ben darpariaeth yn y Ddeddf sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr ac sy'n gymwys o ran Cymru, ac a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth na ellid ond ei gwneud â chydsyniad un o Weinidogion y Goron o fewn ystyr "Minister of the Crown" yn Neddf Gweinidogion y Goron 1975).

(ii) paragraff 3, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;
(iii) paragraff 4, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;
(iv) paragraff 7;
(v) paragraff 8.

*Mark Drakeford*
21 Mawrth 2022 Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 89(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn darparu bod y Ddeddf yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 2 flynedd gan ddechrau â'r diwrnod y caiff ei phasio, yn ddarostyngedig i is-adran (2) o'r adran honno ac adran 90 o'r Ddeddf.

Mae adran 90(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff awdurdod cenedlaethol perthnasol, drwy reoliadau, ddarparu nad yw darpariaeth yn y Ddeddf yn dod i ben ar yr adeg y byddai'n dod i ben fel arall a'i bod yn dod i ben yn lle hynny ar adeg ddiweddarach a bennir yn y rheoliadau. Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cenedlaethol perthnasol ar gyfer Cymru mewn perthynas â darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 sy'n gymwys o ran Cymru ac a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn dyddiad dod i ben darpariaethau penodol yn Neddf y Coronafeirws 2020 i ddiwedd y diwrnod ar 24 Medi 2022. Byddent yn dod i ben fel arall ar ddiwedd y diwrnod ar 24 Mawrth 2022, fel y darperir ar ei gyfer gan adran 89 o'r Ddeddf honno.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn.